

**CABINET**  
**19 IONAWR 2021**

Cofnodion cyfarfod Cabinet Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn rhithiol trwy Webex ar ddydd Mawrth 19 Ionawr, 2021.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Roberts (Cadeirydd)**

Y Cyngorwyr: Glyn Banks, Chris Bithell, Derek Butler, Dave Hughes, Christine Jones, Billy Mullin a Carolyn Thomas.

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid), Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) ac Ymgynghorydd Perfformiad Strategol.

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Y Cyngorydd Hilary McGuill a Ms Julia Hughes, Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau fel arsyllwyr.

Cyn dechrau'r cyfarfod, arweiniodd y Cadeirydd y Pwyllgor mewn teyrnged dawel i'r Cyngorydd Kevin Hughes, a fu farw'n ddiweddar.

**76. DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganodd y Cyngorydd Jones gysylltiad personol ag eitem 9 ar y Rhaglen – Partneriaeth Dysgu Oedolion Yn Y Gymuned.

**77. COFNODION**

Cafodd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 3 a 15 Rhagfyr eu cyflwyno a'u cadarnhau'n gywir.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd fel cofnodion cywir.

**78. CYLLIDEB REFENIW CRONFA'R CYNGOR 2021/22**

Cyflwynodd y Cyngorydd Banks yr adroddiad a oedd yn nodi (1) amcangyfrif agos i'r gyllideb derfynol yn barod i'r Cyngor bennu'r gyllideb flynyddol ym mis Chwefror (2) goblygiadau ariannol Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro Cymru (3) y materion sy'n weddill i'w datrys i gyrraedd cyllideb gytbwys ar gyfer argymhelliad i'r Cyngor a (4) yr amserlen pennu cyllideb.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod yr adroddiad yn crynhoi'r Setliad Dros Dro a'i oblygiadau i ddilyn y diweddariadau llafar a roddwyd i'r Cabinet a'r holl Aelodau ym mis Rhagfyr. Roedd yr adroddiad yn gam dros dro cyn argymhell cyllideb gyfreithiol a chytbwys i'r Cyngor ym mis Chwefror, ac yn nodi'r materion a oedd yn weddill i'w datrys. Byddai unrhyw ddyfarniadau cyflog blynyddol dilynol yn parhau i fod yn risg agored yn ystod y flwyddyn gyda safbwynt y Cyngor ar

gyflogau yn parhau'n glir, gan nad oedd darpariaeth benodol o fewn y Setliad Dros Dro ar gyfer dyfarniadau cyflog blynyddol ar gyfer 2021/22, na ellid cael un neu byddai'r baich yn disgyn ar gyflogwyr y sector cyhoeddus.

Rhoddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol ddiweddariad manwl ar y materion sy'n weddill ar gyfer cau'r gyllideb, fel y nodir yn yr adroddiad, a disgwylir canlyniadau pendant cyn i'r Cabinet (ym mis Chwefror) allu argymhell cyllideb gyfreithiol a chytbwys i'r Cyngor. Awgrymodd y Prif Weithredwr y dylid cyflwyno'r adroddiad cyllideb a argymhellir i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar gyfer eu sylwadau cyn eu cyflwyno i'r Cabinet ym mis Chwefror, gydag unrhyw sylwadau/awgrymiadau'n cael eu gwneud ar lafar i'r Cabinet.

Cefnogodd y Cynghorydd Roberts yr awgrym i gyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol cyn y Cabinet. Dywedodd nad oedd Cyhoeddiad Adolygiad o Wariant y DU Canghellor y Trysorlys yn gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer dyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus ac er y byddai Aelodau'n bersonol yn sicr o gefnogi dyfarniad cyflog blynyddol, nid oedd cyllid i ganiatáu hyn wedi'i ddarparu ac felly ni ellid gweithredu un. Dywedodd y Prif Weithredwr fod yn rhaid i gost dyfarniadau cyflog gael ei hariannu gan y Llywodraeth gyda Chynghorau eraill yn cymryd yr un safbwynt. Ni ellid rhoi cyfrif am botensial dyfarniadau cyflog diweddarach wrth bennu'r gyllideb ac felly roedd hyn yn parhau i fod yn risg agored.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Bithell, dywedodd y Prif Weithredwr fod y Fforwm Cyllidebau Ysgolion wedi cefnogi safbwynt y Cyngor ar ddyfarniadau cyflog blynyddol gydag Undebau Llafur yn mynegi eu barn ar lefel genedlaethol.

Canmolodd y Cynghorydd Banks gronfa caledi Llywodraeth Cymru a oedd wedi cynorthwyo'r Cyngor i allu cynnig codiad treth y cyngor o dan 5%. Ailadroddodd y sylwadau a wnaed i ddyfarniadau cyflog blynyddol gael eu hariannu'n llawn ar lefel genedlaethol a gwnaeth yr achos dros gymorth ariannol i gynorthwyo lleoliadau y Tu Allan i'r Sir yn y tymor byr.

### **PENDERFYNWYD:**

Nodi'r cynnydd a wnaed o ran symud tuag at gyfres o argymhellion i'r Cyngor allu pennu cyllideb gyfreithiol a chytbwys ym mis Chwefror.

## **79. CYNLLUN Y CYNGOR 2021/22**

Cyflwynodd y Cynghorydd Roberts Gynllun y Cyngor ar gyfer 2021/22 a fyddai'n parhau i ystyried adferiad yn ogystal ag amcanion strategol tymor hwy. Adeiladwyd y fframwaith cychwynnol ar gyfer Rhan Un o'r Cynllun o amgylch chwe thema, fel yr amlinellir yn yr adroddiad, ac roedd datganiad strategol yn cyd-fynd â phob thema.

Amlinellodd y Prif Weithredwr y dull cadarnhaol o gynllunio ac arloesi gan y Cyngor a nododd fod y Cyngor yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn targedau a osodwyd. Roedd Cynllun y Cyngor ar gyfer 2021/22 yn ymdrin yn glir â'r holl flaenoriaethau presennol a dywedodd ei bod yn bwysig i swyddogion gael cerrig

milltir cadarnhaol i'w cyflawni ar ddiwedd y pandemig. Byddai'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn cael cyfle i fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun, a chafwyd adborth i ddechrau oddi wrth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ynghylch y themâu trawsbynciol ac awgrym y gallai'r Pwyllgor ddymuno arwain ar y thema Tlodi. Yn dilyn y cylch ymgynghori, byddai'r Cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn ei ail gam cyn i'r Cyngor Sir ei fabwysiadu ym mis Ebrill/Mai.

Adroddodd yr Ymgynghorydd Perfformiad Strategol ar y llinynnau gwaith i sicrhau bod amcanion llesiant yn cael eu hymgorffori yn y Cynllun. Roedd gwaith hefyd yn mynd rhagddo ar ran dau o'r Cynllun a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Mawrth/Ebrill.

Croesawodd y Cynghorydd Thomas y blaenoriaethau fel y'u nodwyd yn y Cynllun a oedd yn glir i'r holl asiantaethau partner eu dilyn. O ran y themâu trawsbynciol, soniodd am y cydweithio cadarnhaol rhwng portffolios gwasanaethau ac awgrymodd y dylid datblygu llwybr clir i nodi pa faes blaenoriaeth fyddai'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn y dyfodol. Awgrymodd y Prif Weithredwr y byddai'r Cynllun yn cael ei rannu wrth adrodd yn chwarterol i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu, gan gyfeirio'n benodol at y blaenoriaethau sy'n rhan o gylch gorchwyl pob Pwyllgor o fewn yr adroddiad eglurhaol perthnasol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Thomas, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai Cynllun y Cyngor 2021/22 yn cael ei gyhoeddi pan fyddai wedi'i gwblhau a byddai ymgynghori'n digwydd gyda rhanddeiliaid yn ystod ei ddatblygiad.

Siaradodd yr Aelodau i gefnogi Cynllun y Cyngor a'r themâu a'r blaenoriaethau ategol a diolchwyd i'r holl swyddogion am gymryd rhan yn y gwaith o baratoi Cynllun y Cyngor.

### **PENDERFYNWYD:**

Bod Rhan Un drafft o Gynllun y Cyngor 2021-22 yn cael ei rhannu â Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu er mwyn ymgynghori â hwy.

### **80. YMATEB CYNGOR SIR Y FFLINT I YMGYNGHORIAD STRATEGAETH DRAFNIDIAETH LLYWODRAETH CYMRU**

Cyflwynodd y Cynghorydd Thomas drosolwg o gynnwys Strategaeth Drafnidiaeth ddiwygiedig Llywodraeth Cymru ac ymateb arfaethedig y Cyngor i'r broses ymgynghori ffurfiol a ddaeth i ben ar 25 Ionawr 2021.

Roedd Strategaeth Drafnidiaeth drosfwaol Llywodraeth Cymru yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru yn y dyfodol a byddai gweithredu'r Strategaeth ddiwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod yng Nghymru adolygu eu Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd er mwyn adlewyrchu cyfeiriad dymunol Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth dros y 5 mlynedd nesaf. Byddai hyn yn ei dro yn cychwyn diwygio Cynllun Trafnidiaeth Integredig (ITP) y Cyngor ei hun, a fyddai'n diffinio dyheadau'r Cyngor ei hun ar gyfer trafnidiaeth dros yr un cyfnod.

Ar ôl adolygu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, roedd yn amlwg bod dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â thrafnidiaeth wedi esblygu i flaenoriaethu dulliau trafndiaeth gwyrddach a mwy cynaliadwy gyda phwyslais ar Deithio Llesol a Thrafnidiaeth Gyhoeddus. Cymeradwywyd y dull hwn yn gryf gan ITP y Cyngor ei hun a oedd yn anelu at ddarparu atebion trafndiaeth gynaliadwy hirdymor drwy integreiddio pob math o drafnidiaeth yn llwyddiannus.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod Strategaeth Drafnidiaeth ddrafft ddiwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru – 'Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru' yn cael ei nodi; a
- (b) Bod y Cabinet yn cymeradwyo ymateb y Cyngor i'r broses ymgynghori ffurfiol, gan gynnwys sylwadau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd o'u cyfarfod ym mis Ionawr.

## **81. CYNLLUN BYSIAU BRYN LLYWODRAETH CYMRU**

Cyflwynodd y Cynghorydd Thomas yr adroddiad a oedd yn gofyn cymeradwyaeth i ymuno â'r Cynllun Bryn ar gyfer y Sector Bysiau 2 (BES2) a fyddai'n cefnogi gweithredwyr drwy gam nesaf y pandemig.

Roedd sefyllfa Covid-19 wedi effeithio'n ddifrifol ar deithio ar fysiau gyda nifer y teithwyr yn gostwng, tra bod gofynion cadw pellter cymdeithasol a glanhau ychwanegol wedi gosod beichiau a chostau ychwanegol ar weithredwyr. BES2 oedd y cynllun diweddaraf a ddilynodd y ddau flaenorol – BES1 ym mis Gorffennaf a BES1.5 ym mis Awst 2020. Drwy lofnodi'r cytundeb diweddaraf hwn, gallai cynghorau sicrhau cymorth ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector bysiau a chaniatáu i Lywodraeth Cymru sefydlu perthynas ag awdurdodau lleol a oedd yn sicrhau bod y cyllid bryn parhaus yn bodloni blaenoriaethau'r awdurdodau hynny ac yn cael ei ddarparu ar eu rhan.

Adroddodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) fod Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda Thrafnidiaeth Cymru, bellach yn bwriadu ymrwymo i'r cytundeb BES2 tymor hwy hwn gyda gweithredwyr ac Awdurdodau Lleol i ddiogelu gwasanaethau. Dywedodd pe gellid rhoi sicrwydd y gallai llwybrau bysiau craidd barhau i weithredu wrth symud ymlaen, yna byddai cynghorau mewn sefyllfa i ddarparu gwasanaethau lleol i fwydo i mewn i'r gwasanaethau craidd a ddarparu gwasanaeth rheolaidd, fforddiadwy a dibynadwy i holl drigolion Sir y Fflint.

Croesawodd y Cynghorydd Bithell yr adroddiad a soniodd fod trafndiaeth gyhoeddus yn hanfodol er mwyn sicrhau bod trigolion ar draws y Sir yn cadw mewn cysylltiad. Mynegodd bryder ynghylch amserlenni bysiau a'r angen i sicrhau eu bod yn cael eu diweddarau'n rheolaidd. Mewn ymateb, roedd y Cynghorydd Thomas o blaid yr angen i'r holl breswylwyr gael mynediad at yr wybodaeth ddiweddaraf a dywedodd y byddai cytundeb BES2 yn sicrhau bod gwasanaethau'n aros yr un fath am gyfnod hwy, gan leihau'r angen i newid amserlenni bysiau yn rheolaidd.

Amlinellodd y Cyngorydd Jones bwysigrwydd cadw cymunedau mewn cysylltiad i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysu a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar iechyd meddwl a lles. Cytunodd y Cyngorydd Thomas, gan ddweud y dylid hefyd ystyried cludiant gan fysiau fel gwasanaeth a oedd yn cefnogi lles.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y Cabinet yn cymeradwyo y dylai'r Cyngor ymrwymo i gytundeb BES 2 (Atodiad 1) fel yr awdurdod arweiniol rhanbarthol, er mwyn sicrhau cymorth ariannol (amodol) Llywodraeth Cymru i'r sector bysiau a chaniatáu i Lywodraeth Cymru sefydlu perthynas â'u hawdurdodau lleol cyfansoddol sy'n sicrhau bod y cyllid brys parhaus yn bodloni blaenoriaethau'r awdurdodau hynny ac yn cael ei ddarparu ar eu rhan; a
- (b) Bod y Cabinet yn gofyn am adroddiad pellach ar gynigion i ddiwygio gwasanaethau bysiau mewn perthynas â rheoli gwasanaethau bysiau yng Nghymru yn y dyfodol.

## **82. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2020/21 (MIS 8)**

Cyflwynodd y Cyngorydd Banks yr adroddiad a oedd yn darparu'r wybodaeth fanwl ddiweddaraf am fonitro cyllideb refeniw Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer y flwyddyn ariannol, ac yn cyflwyno'r sefyllfa yn seiliedig ar incwm a gwariant gwirioneddol erbyn Mis 8. Roedd yr adroddiad yn rhagdybio beth fyddai sefyllfa'r gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol pe bai popeth yn aros heb ei newid. Roedd hefyd yn ystyried y sefyllfa ddiweddaraf ar gyhoeddiadau Cyllid Grant at Argyfwng Llywodraeth Cymru.

Y sefyllfa a ragwelwyd ar ddiwedd y flwyddyn, heb gamau gweithredu newydd i leihau pwysau o ran costau a/neu wella'r elw trwy gynllunio arbedion effeithlonrwydd a rheoli costau, oedd:

### **Cronfa'r Cyngor**

- Diffyg gweithredol o £0.270 miliwn (heb gynnwys effaith y dyfarniad cyflog a fyddai'n cael ei dalu o gronfeydd wrth gefn), a oedd yn newid ffafriol o £0.466 miliwn ers ffigwr y diffyg o £0.196 miliwn a adroddwyd ym mis 7.
- Rhagwelwyd y byddai balans y gronfa wrth gefn at raid ar 31 Mawrth 2021 yn £1.685 miliwn.

### **Y Cyfrif Refeniw Tai**

- Rhagwelwyd y byddai gwariant refeniw net yn ystod y flwyddyn £1.590 miliwn yn is na'r gyllideb.
- Rhagwelwyd y byddai balans terfynol ar 31 Mawrth o £3.763 miliwn.

Rhoddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fanylion am y sefyllfa a ragwelwyd, y sefyllfa a ragwelwyd yn ôl portffolio, newidiadau sylweddol ers mis 7, risgiau agored, risgiau newydd a oedd yn dod i'r amlwg, cyflawni arbedion yn ystod y flwyddyn a chronfeydd wrth gefn a balansau.

Adroddodd y Prif Weithredwr ar y sefyllfa gadarnhaol diwedd y flwyddyn a ragwelwyd a fyddai'n cael ei chyflawni drwy ddisgyblaeth reoli a gwaith creadigol o fewn gwasanaethau fel digartrefedd er mwyn osgoi beichiau costau.

Mewn ymateb i sylwadau ar leoliadau Gwasanaethau Plant y Tu Allan i'r Sir, dywedodd y Prif Weithredwr fod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol wedi penderfynu cefnogi ceisio cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Awgrymwyd bod y Rheolwr Cyllid Corfforaethol yn asesu tueddiadau mewn gorwariant yn y maes hwn ledled Cymru.

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Nodi'r adroddiad cyffredinol a'r swm wrth gefn a ragamcanwyd ar gyfer Cronfa'r Cyngor ar 31 Mawrth 2021; a
- (b) Nodi'r lefel derfynol o falansau a ragwelwyd ar y Cyfrif Refeniw Tai.

**83. PARTNERIAETH DYSGU CYMUNEDOL I OEDOLION**

Cyflwynodd y Cyngorydd Roberts yr adroddiad i roi trosolwg o sut roedd cyllid Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) yn newid yn Sir y Fflint a sut roedd y Cyngor yn ceisio sicrhau'r gwerth gorau i oedolion sy'n dysgu o'r cynnydd yn y dyraniad o'r Grant Dysgu Cymunedol (CLG) ar gyfer 2020 ymlaen. Roedd yr adroddiad hefyd yn ceisio cymeradwyaeth i fwrw ymlaen â ffurfio Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned ar y cyd rhwng Sir y Fflint a Wrecsam a fyddai'n goruchwylio ac yn rheoli Dysgu Oedolion yn y Gymuned ar draws ardal y ddau Gyngor.

Nododd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) fod Llywodraeth Cymru (LIC) bob blwyddyn yn rhoi cyllid i Gynghorau ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned ar gyfer pobl dros 19 oed. Gyda'r dyraniadau cyllid newydd, rhagwelwyd y byddai cyllid blwyddyn lawn ar gyfer 2021/2022 oddeutu £216,152.

Roedd y Cyngor yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Gymunedol Glannau Dyfrdwy ar adeiladu Canolfan Gymunedol newydd yn Queensferry a byddai'r cyfleuster newydd yn darparu cyfleusterau cymunedol, dysgu oedolion a chwaraeon y mae mawr eu hangen. Byddai'r Ymddiriedolaeth yn cynorthwyo'r bartneriaeth i gyflawni rhai o'i hamcanion addysgol allweddol. Byddai rhan o'r cyllid yn cael ei ddefnyddio i gomisiynu'r Ymddiriedolaeth i ddatblygu a darparu cyfleoedd dysgu yn y gymuned leol a helpu i fodloni'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y cyllid Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn Sir y Fflint a'r dyraniad cyllid uwch drwy'r Grant Dysgu Cymunedol gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gydnabod; a
- (b) Bod y gwaith datblygu gyda Phartneriaeth Dysgu Oedolion Wrecsam yn cael ei nodi a bod cymeradwyaeth yn cael ei rhoi i Sir y Fflint fwrw ymlaen â ffurfio Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned ar y cyd rhwng Sir y Fflint a Wrecsam.

**84. YMARFER PWERAU DIRPRWEDIG**

Cyflwynwyd eitem er gwybodaeth am y camau gweithredu a gymerwyd o dan bwerau dirprwyedig. Y rhain oedd y camau gweithredu dan sylw:

### **Gwasanaethau Stryd a Chludiant**

- **Ffioedd Archebu Caeau Pêl-droed Tymhorau 2019/20 a 2020/21**

Bydd angen adolygu'r ffioedd a'r taliadau a godir am ddefnyddio caeau Pêl-droed ar safleoedd hygyrch i'r cyhoedd ledled Sir y Fflint yng ngoleuni'r cyfyngiad a osodir ar Glybiau Pêl-droed oherwydd yr ymateb i bandemig byd-eang Covid-19. Mae'r cyfyngiadau hyn wedi gwahardd Clybiau rhag hyfforddi neu chwarae ers mis Mawrth 2020, a fydd yn golygu y byddai eu gallu i ddefnyddio cyfleusterau a chynhyrchu incwm i dalu ffioedd o'r fath yn gyfyngedig iawn.

Cesglir ffioedd fel arfer ym mis Awst bob blwyddyn cyn dechrau pob tymor, ond oherwydd y cyfyngiadau sydd mewn grym ar hyn o bryd, ac ymholiadau gan y clybiau am y diffyg defnydd yn ystod cyfyngiadau, derbyniwyd archebion ond ni chyflwynwyd anfonebau nes bod mwy o wybodaeth ar gael am sut roedd Cymdeithas Bêl-droed Cymru (WFA) yn mynd i gynghori ar symud pêl-droed ar lawr gwlad yn ei flaen. Ailddechreuodd gemau Cwpan Iau ar 28 Tachwedd 2020. Mae dwy ystyriaeth ar gyfer Sir y Fflint:

- 1 Darparu ad-daliad i glybiau am y cyfnod o beidio cael defnyddio ar ddiwedd tymor 2019/20
- 2 Lleihau'r tâl ar gyfer tymor 2020/21 er mwyn ystyried y cyfnod argaeledd byrrach.

- **Ffioedd a Thaliadau Gwaith Stryd ar gyfer 2020/21**

Mae ffioedd a thaliadau a godir ar gyfer trwyddedau a cheisiadau amrywiol o fewn Gwaith Stryd wedi eu hadolygu ac mae'r taliadau arfaethedig ar gyfer 2021/22 wedi'u nodi yn y tabl isod:

Bydd yr holl daliadau newydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2021.

| <b>Disgrifiad</b>                   | <b>Ffi Bresennol</b>                                     | <b>Ffi Ddiwygiedig o 01.04.2021</b>                      |
|-------------------------------------|----------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------|
| Trwydded Adran 50                   | £551                                                     | £562                                                     |
| Cau Ffordd Oherwydd Argyfwng        | £809                                                     | £825                                                     |
| Rhybudd o orchymyn traffig dros dro | £1967                                                    | £2006                                                    |
| Diffodd goleuadau traffig           | £132 (diwrnod gwaith) a £197 (y tu allan i oriau gwaith) | £134 (diwrnod gwaith) a £200 (y tu allan i oriau gwaith) |
| Cau safle bws                       | £132 (diwrnod gwaith) a £197 (y tu allan i oriau gwaith) | £134 (diwrnod gwaith) a £200 (y tu allan i oriau gwaith) |

### **Llywodraethu**

- **Cyflwyno Taliadau Debyd Uniongyrchol Wythnosol ar gyfer Ardrethi Busnes ac Opsiwn Debyd Uniongyrchol bob Pedair Wythnos ar gyfer Talwyr Treth y Cyngor**

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn darparu opsiynau hyblyg i aelwydydd dalu eu bil Treth y Cyngor drwy daliad wythnosol, misol, hanner blwyddyn neu fel taliad untro. Bydd hynny'n cael ei ymestyn i ganiatáu taliad 4 wythnos hefyd drwy ddebyd uniongyrchol.

Mae'r Cyngor hefyd yn rhoi'r dewis i fusnesau dalu eu bil Ardrethi Busnes naill ai'n fisol, bob hanner blwyddyn neu fel taliad untro. Caiff hynny ei ymestyn i ganiatáu i fusnesau dalu'n wythnosol neu trwy ddebyd uniongyrchol. Mae'r newidiadau hyn mewn ymateb i adborth cwsmeriaid.

### **Tai ac Asedau**

- **Cwt Sgowtiaid Mynydd Isa, Rhodfa'r Wyddfa, Bryn Y Baal, Ger yr Wyddgrug**

Trosglwyddo Cwt Sgowtiaid Mynydd Isa a thir, Rhodfa'r Wyddfa, Bryn y Baal, Ger yr Wyddgrug.

### **Addysg ac Ieuenctid**

- **Llywodraethwyr ysgol a benodir gan awdurdodau lleol**

Penodi cynrychiolwyr Llywodraethwyr Awdurdod Lleol ar gyfrif llywodraethu ysgolion yn unol â Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005

## **DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

### **PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig o dan baragraff(au) 15 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

### **85. PRYNU CARTREFI GWAG**

Cyflwynodd y Cyngorydd Hughes yr adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i ddatblygu'r gwaith o brynu ac adnewyddu eiddo gwag i gefnogi Cynllun Digartrefedd Cam 2 drwy ddod ag anheddau gwag yn ôl i ddefnydd a chynyddu'r cyflenwad o dai ar gyfer y 'garfan covid i'r digartref'.

Sicrhawyd grant Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithgarwch refferniw a chyfalaf i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Digartrefedd Cam 2 Sir y Fflint ac roedd y grant ar gyfer cynyddu capasiti a gwella safonau portffolio llety dros dro Sir y Fflint.



Mewn ymateb i gwestiynau a godwyd, amlinellodd y Prif Weithredwr yr arbedion cost o ddefnyddio llety dros dro ac felly roedd prynu'r eiddo yn werth da fel rhan o'r prosiect buddsoddi i arbed.

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y Cabinet yn cymeradwyo prynu'r eiddo fel y nodir yn yr adroddiad; a
- (b) Bod y Cabinet yn darparu awdurdod dirprwyedig i'r Prif Swyddog (Tai ac Asedau) mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Dai i brynu eiddo gwag pellach drwy gyllid Digartrefedd Cam 2 a ddyfarnwyd i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru pan gaiff ei nodi.

**86. AURA – ADNEWYDDU CONTRACT GWASANAETH**

Cyflwynodd y Cyngorydd Roberts yr adroddiad a oedd yn gofyn am ymestyn y contract gwasanaeth rhwng y Cyngor ac Aura am ddwy flynedd arall drwy gytundeb ar y cyd. Argymhellwyd hefyd y dylai'r Cabinet ganiatáu i'r Prif Weithredwr wneud amrywiadau i delerau'r cytundeb presennol a lefel y taliad contract gwasanaeth, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Addysg, o fewn y meysydd a nodir yn yr adroddiad; a Nodwyd y byddai'n rhaid i unrhyw amrywiadau fod yn fforddiadwy ac o fewn goddefiannau Cyllideb Refeniw Cronfa'r Cyngor 2020/21.

Adroddodd y Prif Weithredwr fod Aura wedi llwyddo i raddau helaeth i gyflawni nodau ac amcanion y contract gwasanaeth a bod ei gynllun busnes wedi aeddfedu fel sefydliad o dan fodel rheoli annibynnol. Mwynhaodd y Cyngor berthynas agos a chefnogol o'i gilydd ag Aura o dan gytundeb partneriaeth sefydledig gyda phrotocolau ar gyfer cydweithio a gwneud penderfyniadau. Roedd yn hanfodol bod y Cyngor yn chwarae ei ran i sicrhau bod Aura yn cael ei ariannu'n briodol er mwyn iddo barhau i fod yn sefydliad cynaliadwy a chystadleuol wrth iddo ddod allan o sefyllfa'r pandemig.

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y Cabinet yn cytuno i roi estyniad pellach a therfynol i'r cytundeb gwasanaeth gydag Aura hyd at 31 Mawrth 2024; a
- (b) Bod y Prif Weithredwr yn cael awdurdod i wneud amrywiadau i delerau'r cytundeb presennol a lefel y taliad gwasanaeth fel y nodir yn yr adroddiad, mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros Addysg ac Ieuenctid.

**87. RHAGLEN CYNNIG GOFAL PLANT**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) yr adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i ymrwymo i gontract ar gyfer cam adeiladu'r Rhaglen Cynnig Gofal Plant.

Darparwyd cynnig masnachol ar gyfer y rhaglen a oedd yn cynnig sicrwydd cost. Profwyd goblygiadau refeniw drwy gyflwyno achos busnes ysgol a dim ond y prosiectau a oedd wedi dangos eu bod yn hyfyw ac yn gynaliadwy oedd wedi'u dewis i fwrw ymlaen â nhw.

Roedd y dyraniad cyllid i'r prosiect arfaethedig yn Ysgol Brynford wedi cynyddu. Nid oedd yn bosibl defnyddio balansau o ffrydiau ariannu eraill ac nid oedd yn ymarferol lleihau cwmpas y prosiect a gofynnwyd i'r Cabinet awdurdodi'r diffyg o £50k o brif gronfa'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod y Cabinet yn cymeradwyo ymrwymo i gontract ar gyfer cam adeiladu'r Rhaglen Cynnig Gofal Plant; a
- (b) Bod y Cabinet yn cymeradwyo bod y diffyg o £50k ar y prosiect arfaethedig yn Ysgol Brynford yn cael ei ariannu o brif gronfa'r Cyngor.

**88. CAFFAEL A DATBLYGU DARPARIAETH GOFAL PRESWYL MEWNOL I BLANT**

Cyflwynodd y Cynghorydd Jones yr adroddiad a oedd yn gofyn am gefnogaeth i brynu tri eiddo er mwyn gallu datblygu Cartref Gofal Preswyl i Blant. Roedd grŵp llywio iechyd a gofal cymdeithasol integredig rhwng Sir y Fflint, y bwrdd iechyd lleol a Wreccsam wedi datblygu cynigion ar gyfer dull trawsnewidiol o sefydlu darpariaeth plant preswyl leol.

Gallai'r safle a nodwyd ddarparu amrywiaeth o wasanaethau cymorth ac elwa o fod yn agos at amwynderau a gwasanaethau lleol. Mae gan yr holl eiddo briodoldebau cartrefol a byddent yn cael eu hystyried yn amgylchedd cartref ar gyfer plant a phobl ifanc mwyaf agored i niwed y Cyngor. Y bwriad oedd sefydlu darpariaeth asesu a chefnogi preswyl tymor byr i gynnal asesiadau dwys a gwaith ymyrraeth therapiwtig i gefnogi teuluoedd neu gomisiynu lleoliadau maethu/preswyl lleol tymor hwy.

Siaradodd yr Aelodau o blaid yr adroddiad a rhoddwyd sylwadau ar y cynigion arloesol.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Cabinet yn cefnogi prynu tri eiddo, fel yr amlinellir yn yr adroddiad, i alluogi datblygu Cartrefi Gofal Preswyl i Blant.

**89. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD**

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a.m. a daeth i ben am 11.16 a.m.)

.....  
**Y Cadeirydd**